

2178

GALAR-GAN

ER COF AM


YR AGERLONG "AWSTRIA,"

A LOSGODD AR EI MORDAITH

O Southampton i New York,

Medi 13eg, 1858,

Pan y collwyd rhwng llosgi a boddi 470, ac yr achubwyd
67 gan y Barque "Moris," o Ffrainge, Capt. Ernest
Renaud.



Cenir ar "Fryniau'r Iwerddon."

- 1 Holl longwyr a mordeithwyr, a chwithau'r gwlad-
wyr glan,
'Rwy' 'nawr mewn modd arbenig am gynyg galar-
gan, [ddwys,
Am bedwar cant a thriugain a deg ga'dd ddamwain
Rhwng mor a'i dŷnion donau a flamiau pena'u pwys.
- 2 Pedwerydd dydd o Fedi, galarus nodi yn awr,
Mil wyth-gant pum deg wythmlwydd oedd Crist y
Meichiau mawr,
Pan droes yr *Awstria* allan i fordaith lydan lawn,—
Llong haiarn fawr oedd hōno, ei hynod gofio a gawn.
- 3 Tan ofal Captain Hydnaut wr mawrglod yn eu
mysg, [eu dysg;
O dano'r oedd swyddogion, rhai dynion me

'Roedd Doctor a chriw cryfion a digon yuddi o 'stor ;
Troes o Southampton allan am 'Fericia tros for.

4 Edrychid wrth droi allan ar y llong hoywlau hon,
Fel castell mawr arbeuig uodedig uwch y dôn ;
R oedd cant a thri o ddynion o griw ar hou, wyr
rhwydd,
Rhwing crefftwyr, *engineers*, a *sailors* at bob swydd.

5 Ca'dd wynt yn groes i ddechreu, a niwlog ddydd-
iau 'n wir ; [yn hir,
Ni chawsant fawr ddiddanwch na heddwch ynddi
Nes myned gannoedd allan i'r cefnfor llydan llaith,
Heb weled llestr bellach naglan nachilfach 'chwaith.

6 Mis Medi, ar For y Werydd, y trydydd dydd ar ddeg,
'Roedd pawb yn llawn llawenydd wrth weled
tywydd teg ;
Y llong mor gyflym hwyliai, 'doedd neb â'u bronau'n
brudd, [dydd.
Mewn gobaith oll am weled New York y pummed

7 Gan fod fath lu o ddynion mor glos yn hou o hyd,
Gorch'mynwyd ei mwg-darthu ger bron ar hyny o
bryd ;

Ai'r Doctor a'r swyddogion yn union at y nod,
I losgi tar rhwing deciau, rhag i glefydau fod.

8 Fe fflamiai'r tân i'r byrddau, i'w mysg bu cyffro
mawr ; [eu sawr !
Rhwing deciau'r llong a'r *hatches*, arswydus drwg
A'r Captain a'r holl longwyr mor brysur hyny o bryd,
A'r bobloedd yno yn gwaeddi bron â gwallgoffi i gyd.

9 'Roedd arni wyr bon'ddigion ac aur melynion
gwyth ; [drych !
Yn ngafael tân dychrynlyd mor drymlyd oedd eu
Nis gallai golud gwiwlon, yn y fath greulon graith,
Mo'u bachub rhag y fflamiau a'r mor a'i donau maith.

10 'Roedd yno wr boneddig a'i wraig, a saith o blant,
Fc'u galwai i gyd-weddio cyn mynd o'r byd i bant ;
Gorch'mynodd iddynt neidio i'r mor, mewn cyffro
caeth, —

fabau rhwng ei freichiau yn olaf neidio wnaeth.

11 Yr oedd tros ugain troedfedd o uchder, chwerwedd chwith!

I neidio o'r tân i'r tonau,--bydd cof heb amheu byth;
'Roedd dillad rhai yn fflamio, a'u cnawd yn rhostio'u rhwydd,

Wrth neidio i lawr i'r dyfnfor; mor sobr oedd eu swydd!

12 Fe losgwyd rhai 'n ei gwaelod, mor hynod drist eu rhan;

A'r *engineers* hefyd a fygwyd yn y fan:

Pan losgai'r tân mewn cryfdrwr i'r *powder magazine!*
Rhyw lu anferthol laddwyd, fe'u llarpiwyd yn mhob llun.

13 'Doedd neb allasai stopio yr *engine* yno yn wir.

A'r llong pryd hyny gannoedd filltiroedd pell o dir;

'Roedd lleisiau torcalonus galarus yr holl lu,

A chyrrff ar led am bellder ar eigion dyfnder du.

14 'Roedd yno un cenadwr a'i wraig mewn cyflwr caeth,

A'r ddau, gan ddwys gofleidio, i gyd-weddio a ddaeth;

Cyd-neidio yn mreichiau 'n gilydd mewn sobrwydd wnaent yn siwr, [y dw'r.

A gwelwyd mewn modd gwaelwedd eu diwedd yn

15 Y Captain yno gollwyd, rhyw adeg enbyd oedd,

A rhai o'r cychod losgwyd, mae galar d'weyd ar g'oedd;

A'r cychod lanswyd hefyd, a suddwyd oll mor syn,

Aeth dynion iddynt ormod yr amser hynod hyn.

16 'Roedd dynion yn gwallgofi, a'r tân yn llosgi'n llym,

Heb le i ffoi rhag angeu a'i grafanc fwya' ei grym;

'Roedd gwragedd n phlant yno, a gwyr yn neidio'n wir

O'r tân i'r mor i foddi,—caent hyny cyn pen hir.

17 Daeth llong o'r enw *Moris* o Ffrainc, boed hysbys hyn,

Pan oedd yr amser c'leta', a phawb mewn dalfa dyn,

Achubodd saith a thriugain o'r erchyll ddamwain ddu,

Rhoddasant trwy drugaredd i'r rhai'n ymgeledd gu.

18 *Ar Catherine*, Barque o Norway, gawn yma
 goffa ei gwaith, [llaith;—
 Achubodd amryw wed'yn rhag soddi i'r llynelyn
 Criw hono a'r llong *Moris* fo'n barehus gan bob un,
 Eu haeddol glod gyhoeddir'mysg llongwyr o bobllun.

19 Mae tân yn beth dychrynlyd, rhaid d'wedyd
 hyn ar dir,

Ond ar y mor rhuadwy mae'n fwy ofnadwy'n wir!
 Rhag tân ar dir ceir diengyd o'r chwerw drymlyd
 drefn,

Ni cheir ar gefnfor llydan traws cyfan un drws cefn.

20 Ond pedwar cant a thriugain a deg trwy'r ddam-
 wain ddwys,

A gollwyd, mae galaru rhyw beth ofnadwy bwys;
 Holl geraint a pherth'nasau a'u hanwyl ffrindiau hwy,
 Er wylo yn hir am danynt ni welant mo'nynt mwy.

21 A llong o Aberdyfi fis Hydre' r flwyddyn hon,
 A gollwyd gerllaw Milford, mae braw ar lawer bron;
 Tri llongwr hoff o Gymry wna'r crochfor lymgeu i
 lawr, [fawr.

Ond safai'r Mate a'r Captain o'r ddamwain filain

22 *Ar lanau'r moredd mawrion* rhyw sŵn echrys-
 lon sy',

'Rol colli yr holl fywydau, dinystriwyd llongau'n llu;
 Rhieni am feibion mwynaidd a gwragedd am eu
 gwyr,

A gwelir merched gwiwlun yn awr gerbron yn brudd.

23 'Does neb ond Duw, mae'n sicr, wyr g'ledir
 morwyr inwyn, [yn ddwyn;—

Ar ffochwyllt for chwyddedig fath ddirmyg maent
 Crist Iesu ar y cefnfor fo'u llyw a'u hangor hwy.

A'u dygo i'r porthladd tawel: Amen, heb 'mad'el
 mwy.

YWAIN MEIRION.